# ASESU AR GYFER DYSGU ECAD5012

Gwen Bailyes 2303764

# BETH I DDISGWYL

- Cefndir y dosbarth
- Asesu ar gyfer dysgu
- Dylan William, Carol Dweck
- Ymchwil Ysgolion a phobl yn y maes
- Gwers Cymraeg
- Asesu ar gyfer dysgu defnyddiais
- Manteision ac anfanteision

# CEFNDIR Y DOSBARTH

- Blwyddyn 6
- Dosbarth galluog, siaradus ond gweithgar
- 19 o blant
- Mwyafrif o gartrefi iaith gyntaf Cymraeg
- 3 lefel o wahaniaethu
- Cam gynnydd tri mewn gwersi Cymraeg;

Rwy'n gallu gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr.

# CEFNDIR Y DOSBARTH

- ‘Geirio Gwych’- adeiladu gwybodaeth i gyflwyno darn mawr o waith.






# ASESU AR GYFER DYSGU

## Dylan william

**Asesu ar gyfer dysgu yw defnyddio asesu i wella dysgu, nid dim ond i brofi gwybodaeth.**
**Diben asesu: Cefnogi dysgu plant, yn hytrach na dim ond mesur.**
**Defnydd asesu:**

- **Rhoi adborth i ddisgyblion.**
- **Arwain gweithgareddau dysgu yn y dyfodol.**

**Cyferbyniad â asesiad crynodol:**

- **Asesiad crynodol (e.e., profion) yw gwerthuso perfformiad ar ddiwedd uned neu dymor.**

**Pwysigrwydd cynnwys disgyblion yn eu dysgu:**

- **Annog hunanasesu a asesu cyfoedion fel ffyrdd o fyfyrio a nodi meysydd i'w gwella.**
- **Pan fydd disgyblion yn deall eu nodau dysgu, byddant yn fwy tebygol o gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.**

## Carol dweck

- **Cynllunio asesu** i feithrin **hyder** disgyblion i wella.
- **Percepio asesu fel cyfleoedd i gael adborth adeiladol** i gefnogi twf.
- **Cyd-fynd â Wiliam:** Ffocws asesu ar ddarparu **adborth parhaus** sy'n helpu disgyblion i nodi meysydd i'w gwella.

# ASESU AR GYFER DYSGU

<u>David Didau</u>

- Dim ond yn profi beth nad yw'r disgyblion wedi dysgu a dim beth ydyn nhw wedi dysgu.

<u>European journal of Teacher Education</u>

- Pwysleisio ar y negatif

# CYNLLUN GWERS

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales

APLP PDPA Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa Yr Athrofa Professional Learning Partnership

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Darpar athro:** | Gwen Bailyes | **Dosbarth / Grŵp** | Bl 6 |
| **MDPh neu Bwnc:** | Ieithoedd, llythrennedd a chyfarthrebu. | **Dyddiad** *(sylwer y gall y sesiwn hon fod yn un barhaus)*: | 18/11/2024 |
| **Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm** (Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Disgrifiadau dysgu, y cwricwlwm 'blaenorol'...) | Rwy'n gallu gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr. | | |
| **Cysylltiadau ystyrlon ar draws y Cwricwlwm** (Cysylltiadau â MDPhau eraill neu'r Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd) | Dim. | | |

**Targedau Personol** (targedau a'r effaith ganlyniadol ar ddysgu – cyfeiriwch at unrhyw dargedau sydd wedi'u nodi yn y dyddlyfr dysgu neu gyfarfod adfyfyrio wythnosol a disgrifiwch yr effaith a ddymunir ar ddysgu)

**Bwriad Dysgu**

*'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.'* (Crichton, H., a Mcdaid, A. 2016 t. *196)*

Trwy dilyn 'Geirio Gwych' dylai'r dysgwyr gallu ysgrifennu stori antur erbyn diwedd yr wythnos. Bydd cyfres o wersi sgaffaldi gwahanol yn paratoi plant i cwblhau hyn.

**Meini prawf llwyddiant**

*Yr hyn mae angen i'r disgyblion ei ddangos i fodloni'r Bwriad Dysgu yn llwyddiannus.*

- Darllen yr engraifft da o stori
- Adnabod ac ucholeuo pob un nodwedd arddull

**Cynllunio ar gyfer camsyniadau:**

*Defnyddiwch yr adran hon i ragweld gwallau a chamddealltwriaethau disgyblion a'r ymatebion yr ydych yn bwriadu eu rhoi iddynt.*

Darllen yr engraifft da gyda'r dosbarth i gyd.

- Cyfeirio i'r wal geirio gwych.
- Rhoi engreifftiau

# CYNLLUN GWERS

**DILYNIANT ADDYSGU A DYSGU**
*(Ychwanegwch neu dynnu rhesi isod fel y bo'n briodol)*

| **Amseru:** *Rhannwch yr amseru yn grwpiau os yw'n briodol. Gwnewch yn siŵr fod disgyblion yn mynd ati i 'wneud' yn gyflym a bod y cyfnodau pontio'n cael eu hystyried* | **Rôl yr athro a'r staff cymorth:** *e.e. cwestiynau allweddol, adalw dysgu blaenorol, modelu ac esboniadau, gwirio dealltwriaeth, defnydd a fwriedir o oedolion ychwanegol* *Dewis o fodel addysgegol neu o'r 12 egwyddor addysgegol* | **Y dysgu gan y disgyblion a'r gweithgareddau:** *Beth fydd y disgyblion yn dysgu ei wneud a pha weithgareddau / adnoddau fydd yn hwyluso hyn?* *Cyfeiriwch at y ddogfen Dysgu Sylfaen i gael manylion y ddarpariaeth.* | **Strategaethau Cynhwysol (yn cynnwys gwahaniaethu):** *Y rhesymau dros sgaffaldio a manylion hynny.* *Mathau o gynrychiolaeth mewn tasgau.* | **Gwiriwch beth mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall, ac yn gallu ei wneud:** *Cwestiynau allweddol, mathau o ymarferion adalw, cyfleoedd i hunanasesu ac asesu cymheiriaid, cyfleoedd marcio byw, adborth a fwriedir.* |
|---|---|---|---|---|
| 10 mun | Darllen trwy'r engraifft da o stori antur.<br>Esbonio beth sydd rhaid i'r plant gwneud (uwcholeuo'r rhannau ymadrodd).<br>Darparu'r engraifft ar bapur. | Gwrando ar yr engraifft<br>Rhannu syniadau ar beth sydd rhaid edrych am yn y stori, profi gyda byrddau gwyn.<br>Darllen y stori yn annibynol | Dim. | Gofyn "oes na unrhywun sydd ddim yn deall?" |
| 20-30 mun | Cerdded o gwmpas a gwirio bod pawb yn deall | Darganfod ac uwcholeuo gyda'r cod lliw y rhannau ymadrodd yn y stori. Defnyddio'r wal gydag engreifftiau i'w helpu.<br>E.e. Agoriadau, ansoddeiriau, cysyllteiriau, gwefreiriau, idiomau ac atalnodi. | Dim. | 'Pit stop'- yng nhganol y wers cymryd saib, esbonio eto beth ydyn ni'n edrych am, atgoffa os gall gweld mae llawere yn anghofio un yn aml. |
| 15 mun | Mynd dros yr atebion fel dosbarth yn sicrhau i esbonio. | Adrodd nol beth ffeindion nhw. | Dim. | Ar sail beth yw'r plant yn ateb nol a pa mor hyderus ydyn nhw. |

# PAM?

- Engraifft da o stori antur
- Gallu gweld beth i ddisgwyl
- Deall strwythur stori

- Nodweddion arddull
- Allwedd lliw ar gyfer pob nodwedd arddull
- Gallu adnabod y nodweddion a rhoi ysbrydoliaeth

# ENGRAIFFT DA



Agoriadau · Ansoddeiriau · Cysyllteiriau · Gwefreiriau
Idiomau · Atalnodi · ___ brown / Cyflythrennu · ___ Cymhariaeth

## Gwersylla

Edrychodd mam Rhys ar y ddau ohonom. "Ocê, bihafiwch," mwmiodd wrth droi sain y teledu'n uwch. *Pobl Y Cwm* oedd arno ac am yr hanner awr nesaf roedd yn rhaid cael tawelwch. Gan lusgo pabell fy nhad rhyngom, cripiodd Rhys a finnau drwy'r drws cefn. O'r diwedd, roeddem wedi cael caniatâd i dreulio'r noson yn gwersylla, hyd yn oed os mai ar waelod gardd Rhys oedd hynny.

Bedair awr yn ddiweddarach, roeddem yn cwtsio yn ein sachau cysgu clyd. Roedd yr haul yn prysur ddiflannu dros y gorwel a'r cysgodion tywyll yn tyfu'n hirach. Cynnodd Rhys ei dorts a syllon ni ar draws yr ardd at y tŷ. Roedd pob ystafell yn olau a'r goleuadau yn y ffenestri yn disgleirio fel pwmpenni melyn. Beth bynnag, ar waelod yr ardd lle roedden ni, roedd hi'n tywyllu, yn tywyllu fel pe baen ni'n suddo i bwll dwfn. Ymddangosodd y sêr fel clustdlysau bach arian. Taflodd y lleuad ei golau arian, iasoer dros yr ardd a gafaelodd yr oerfel yn ein hesgyrn.

Caeodd Rhys y sip yn sownd a dyna lle buon ni'n clebran. Roedd Rhys wrthi'n dweud jôc wrtha' i am iâr yn croesi'r hewl pan glywon ni'r sŵn y tro cyntaf. Sŵn crafu rhyfedd yn dod o'r tu allan i'r babell. Cydiom yn ein gilydd a rhewi. Beth ar y ddaear allai fod?

Yna, clywon ni'r sŵn dieithr eto. Roedd pethau yn mynd o ddrwg i waeth. Roedd rhywun neu rywbeth yn symud ar hyd y babell tuag at yr agoriad. Clywon sŵn rhygnu fel claf yn tynnu ei anadl olaf. Doedd dim dianc. Y cyfan allen ni ei wneud nawr oedd gorwedd yna'n gelain yn crynu fel jeli yn ein hesgidiau. Plymiodd y ddau ohonom yn ddwfn i mewn i'n sachau cysgu ac aros. Curodd fy nghalon fel drwm mewn cerddorfa.

Wedyn, cefais fy synnu gan Rhys. Ymestynnodd ei law ddewr yn ofalus ac agorodd y sip. Yn sydyn, o'r tywyllwch, daeth ffrwd o aer rhewllyd drwy'r hollt. Fflachiodd pelydryn o'r dorts i'r düwch trwchus gan ddatgelu'r tresmaswr. Syllodd arnom gyda'i fotymau bach o lygaid pitw, du. Snwffiodd yn fusneslyd a diflannu. Wyddoch chi beth oedd e? Ie, draenog! Wel dyna ryddhad!

Fore trannoeth, cawsom frecwast hyfryd o gig moch ac ŵy. "Popeth yn iawn neithiwr, Rhys?" gofynnodd ei fam wrth daenu menyn ar ein tost. "Dim problem," atebodd Rhys fel pe bai dim wedi digwydd. Edrychodd Mam ar ei mab gan godi ei haeliau yn ddrwgdybus. Doedden ni ddim wedi twyllo Mam!

# ASESU AR GYFER DYSGU DEFNYDDIAIS

- Byrddau gwyn bach
- Ysgol ymchwil Durrington
- Hyb Dysgu Harris

- 'Pit stop'
- Jessica Richards

Sut oedd y plant yn teimlo?





# CWESTIYNAU!

# CYFEIRNODI


- Durrington Research School. (2021). The use of mini whiteboards in the classroom. [online] Available at: https://researchschool.org.uk/durrington/news/the-use-of-mini-whiteboards-in-the-classrom
- Dweck, C.S., 2007. 'The Perils and Promises of Praise', Educational Leadership, 65(2), pp. 34-39.
- Fletcher-Wood, H. (2017). Is formative assessment fatally flawed? Confusing learning & performance. [online] Improving Teaching. Available at: https://improvingteaching.co.uk/2017/03/26/formative-assessment-flawed-confusing-learning-performance/
- Harrislearninghub.org.uk. (2020). Teaching From The Front: Strategy 4 - Mini Whiteboards. [online] Available at: https://www.harrislearninghub.org.uk/15/teacher-resource-area/post/8/teaching-from-the-front-strategy-4-mini-whiteboards?utm_source=chatgpt.com [Accessed 16 Jan. 2025].
- Kivunja, C. (2015). Why Students Don't Like Assessment and How to Change Their Perceptions in 21st Century Pedagogies. Creative Education, 06(20), pp.2117–2126. doi:https://doi.org/10.4236/ce.2015.620215.
- Richards, J. (2024). Pupil Progress Pitstops: Formative assessment in action - SecEd. [online] SecEd. Available at: https://www.sec-ed.co.uk/content/best-practice/pupil-progress-pitstops-formative-assessment-in-action/?utm_source=chatgpt.com [Accessed 16 Jan. 2025].
- Rotem Trachtenberg-Maslaton, Vedder-Weiss, D., Lefstein, A. and Israeli, M. (2023). 'I don't assess children this way' – how do disagreements about assessment support (or limit) teacher on-the-job learning?. European Journal of Teacher Education, pp.1–24. doi:https://doi.org/10.1080/02619768.2023.2208281.
- Swaffield, S. (2011). Getting to the heart of authentic Assessment for Learning. Assessment in Education: Principles, Policy & Practice, 18(4), pp.433–449. doi:https://doi.org/10.1080/0969594x.2011.582838.
- Wiliam, D. (2006). The Impact of Formative Assessment and Learning Intentions on Student Learning. In F. M. Reeve (Ed.), Assessment for Learning: A Practical Guide (pp. 1–15). Routledge.
- Wiliam, D. (2011). Embedded Formative Assessment. Solution Tree.